# Gofalwn Cymru: prentisiaethau gofal plant gyda meithrinfeydd Mudiad Meithrin.

Mae gan Mudiad Meithrin feithrinfeydd ledled Cymru gan gynnwys Llangefni, Aberystwyth a Phontypridd sy'n darparu gwasanaethau gofal drwy gydol y dydd i 400 o blant rhwng wyth wythnos a 12 oed.

Siaradodd Delyth Evans, sy’n gyfrifol am y tair meithrinfa, â Gofalwn Cymru, am heriau o fewn y sector o ran recriwtio, yn enwedig o ran gallu recriwtio siaradwyr Cymraeg cymwys.

O ganlyniad, yn 2019 cyflwynodd Mudiad Meithrin eu cynllun prentisiaeth sy’n agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau gyrfa ym maes gofal plant. Dywedodd Delyth eu bod yn gobeithio “y bydd y cyfle hwn yn denu pobol i’r sector, yn ogystal â chadw myfyrwyr Cymraeg eu hiaith o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.”

## Delyth, dywedwch wrthym am eich prentisiaid…

“Ar hyn o bryd mae gennym ni bedwar myfyriwr rhwng 18-45 oed sy’n gweithio gyda ni yn ein meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg. Maent i gyd yn gwneud eu Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Rydym eisoes wedi cynnig cyflogaeth amser llawn i dri o’n prentisiaid ar ôl iddynt gymhwyso.”

## Anhygoel! Dewch i ni glywed gan rai o’ch prentisiaid…

**Gwenno Lewis, Prentis ym Meithrinfa Camau Bach yn Aberystwyth, Ceredigion**



“Rwyf wedi cael profiad cadarnhaol a chefnogol gyda fy nhiwtoriaid, fy nghydweithwyr a’r lleoliad. Mae wedi bod yn ffordd wych o gael profiad gwaith yn ogystal ag ennill cymhwyster ar yr un pryd.”

**Jess Williams, Prentis ym Meithrinfa Medra yn Llangefni, Ynys Môn**



“Rwyf wedi mwynhau’r cynllun prentisiaeth hyd yn hyn. Es i mewn iddo heb wybod a fyddwn i'n ei fwynhau, ond rwy'n mwynhau pob munud. Mae wedi rhoi cyfle i mi gyfarfod a gweithio ochr yn ochr â phobl anhygoel.

Mae’r brentisiaeth wedi rhoi profiad ymarferol i mi  o weithio gyda phlant  ac wedi cadarnhau fy llwybr ngyrfa.”

I ddarllen mwy am brentisiaethau o fewn gofal cymdeithasol a gofal plant ewch i wefan Gofalwn Cymru: https://gofalwn.cymru/prentisiaethau/.